

## Tystiolaeth Bedyddwyr Wcráin, Hwngari a Gwlad Pwyl

Ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin bu'n galonogol clywed am y modd y mae Cristnogion yn y wlad a'r gwledydd cyfagos wedi ymateb mewn ffordd mor ymarferol i'r angen o'u cwmpas, gan barhau i addoli a gwasanaethu yng nghanol yr holl broblemau. Aeth Aled Davies ati i grynhoi ambell bwt o newyddion.

### Dathlu Sul y Blodau yn Eglwys y Bedyddwyr, Lviv

Wrth i Helle Liht, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (European Baptist Federation), ymweld ag Eglwys y Bedyddwyr yn Lviv, gwelodd arwyddion gobaith yn codi yng nghanol yr heriau.

Meddai Helle, yn dilyn ei hymweliad: 'Cafodd y gân "Mae cariad Duw yn fwy na'r cefnfor" ei chanu ag argyhoeddiad, a daeth y plant ynghyd i'r ysgol Sul am y tro cyntaf ers dechrau'r rhyfel. I'r cwestiwn a ofynnais iddynt, sef beth allwn ni ddiolch i Dduw amdano, fe atebon nhw: "Rydyn ni'n fyw, rydyn ni'n ddiogel, gallwn ni ymgynnull yn yr eglwys, ac mae Duw yn parhau i'n bendithio."

'Wrth i'r gweinidog wahodd pobol i weddio mewn grwpiau bach, roedd sŵn gweddïau'n llenwi'r eglwys. Gweddïwyd

dros lywodraeth Wcráin a thros y bobl sy'n gorfod gwneud penderfyniadau. Gweddïwn ninnau ar i eglwys Crist yn Wcráin fod yn gryf a dod â gogoniant i Dduw. Gweddïwn y bydd cyfiawnder a heddwch yn ennill yn y pen draw. Roedd yr eglwys yn llawn gobaith wrth i Roman Vecherkovskiy, Is-lywydd Undeb Bedyddwyr Wcráin, rannu neges yn tystio nad oes dim byd mwy grymus na chariad Duw (Eseia 40:25–31).'

### Dinistrio Eglwys Fedyddiedig Bethany yn Mariupol

A miliynau o bobl ledled Wcráin yn brwydro i fyw mewn gwlad sydd dan warchae, dinas Mariupol sydd wedi wynebu'r ymosodiadau mwyaf mileinig. Mae'r ddinas hardd hon ar arfordir gogleddol Môr Azov wedi dioddef bomio di-baid ers wythnosau. Mae adeilad Eglwys Bethany, lle ceir cynulleidfa weithgar sy'n enwog am ei gweinidogaeth gymdeithasol ac efengylaidd, bellach yn adfail, ond er gwaethaf y bomio a'r llosgi, erys y groes. Ac felly hefyd benderfyniad cadarn Bedyddwyr Wcráin i aros yn ffyddlon mewn gwasanaeth i Dduw a'u cyd-Gristnogion, hyd yn oed tra mae'r rhyfel yn fgythyad parhaus iddynt. Er colli'r adeilad, mae'r gynulleidfa sy'n weddill yn dal i gyfarfod i addoli a gwasanaethu.

### Cymorth i ffoaduriaid gan eglwys mewn gwledydd cyfagos

Ers i ffoaduriaid ddechrau croesi'r ffin i wlad Pwyl, mae Eglwys Bedyddwyr Chelm yno wedi camu i'r adwy i gynnig cymorth ymarferol ac wedi croesawu dros 3,500 o ffoaduriaid o Wcráin i'w heglwys. Maent hefyd wedi troi warws cyfagos yn ganolfan i ddosbarthu bwyd a nwyddau, ac eisoes wedi anfon dros 300 tunnell o fwyd i'r ardaloedd dan warchae.

Yn Hwngari, mae Lagos a'i chriw wedi bod wrthi'n brysur yng nghegin Canolfan Balaton (canolfan Undeb Bedyddwyr Hwngari) yn paratoi prydau bwyd yn ddyddiol i ffoaduriaid. Mae'r ganolfan hon ger llyn Balaton erbyn hyn yn gartref dros dro i tua 70 o ferched a'u plant, ers iddyn nhw ffoi rhag y trais yn Wcráin. Roedd y ffoaduriaid hyn, pobl Roma o ardal yn Wcráin ger y ffin â Hwngari, yn cael trafferth i ddod o hyd i lety, gyda llawer o'r gymuned Romani yn cael eu gwrthod gan yr awdurdodau. Diolch i garedigion Canolfan Balaton am estyn croeso iddynt.

Mi fyddaf yn mynd i Balaton yn ystod mis Mai, ac yn gobeithio cyfarfod rhai o'r arweinwyr hyn sy'n gweithio mor ddiwyd. Fe fydd mwy i'w rannu yn *Cenn@d* bryd hynny, gobeithio.



Eglwys Fedyddiedig Bethany yn Mariupol cyn y dinistr



Eglwys Fedyddiedig Bethany yn Mariupol wedi'r bomio diweddar



Eglwys Bedyddwyr Chelm yn defnyddio'r adeilad i letya ffoaduriaid



Dathlu Sul y Blodau yn Eglwys y Bedyddwyr, Lviv

## Mae natur yn cyfri – ac yn cael ei gyfrif

Mae eglwysi a chadeirlannau ym mhob rhan o'r wlad yn paratoi ar gyfer gweithgarwch blynyddol Eglwysi'n Cyfrif Natur. Bydd y cyfle hwn i hybu 'gwyddoniaeth y dinesydd', a gynhelir rhwng 4 a 12 Mehefin, yn croesawu pobl i fynwentydd a'u hannog i gofnodi pa anifeiliaid a phlanhigion a welant. Caiff y data hwnnw wedyn ei gadw ar gronfa cofnodion biolegol y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

Trefnwyd mwy na 540 o weithgareddau a digwyddiadau gan eglwysi ar draws Cymru a Lloegr y llynedd. Cyflwynodd pobl 17,232 cofnod o ddata ar fywyd gwylt a welsant, gan gofnodi 1,700 rhywogaeth. Caiff Eglwysi'n Cyfrif Natur ei gynnal ar y cyd gan elusennau cadwraeth [A Rocha UK](#) a [Caring for God's Acre](#) ynghyd ag Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru, ac mae'n agored i eglwysi o bob enwad.

Cynhelir y gweithgarwch eleni yn ystod Wythnos Caru eich Mynwent (4–12 Mehefin). Mae Esgob Tyddewi, Joanna Penberthy, esgob arweiniol yr Eglwys yng Nghymru ar yr amgylchedd, yn annog pobl i gymryd rhan. Dywedodd, "Mae'n gyfle i werthfawrogi a dysgu am y byd gwerthfawr sydd ar garreg ein drws a gwireddu ein cyfrifoldeb dros ei feithrin a'i ddiogelu. Gobeithiaf y bydd ein holl eglwysi sydd â mynwentydd yn cofrestru ac yn cymryd rhan eleni ac yn cofnodi pa drysorau o'r byd naturiol a welant. Gweld y rhyfeddol, darganfod y prin a mwyngau cofnodi'r holl blanhigion ac anifeiliaid a welwch."

Y llynedd, defnyddiodd llawer o eglwysi Eglwysi'n Cyfrif Natur fel cyfle i ymestyn allan i'w cymuned leol. Er enghraifft, ymunodd pobl o'r gymuned gyda phlwyfolion ym Mynwent Llandygywydd, ger Aberteifi, i osod maglau gwyfynod a chwilio am ystumod dros ddeuddydd. Dywedodd y trefnydd, y Parch Anne Beman, i tua 20 o bobl gymryd rhan, yn cynnwys plant: "Roeddem yn ffodus i weld tua 30 o ystumod hirglust yn gadael eu man clwydo yn yr eglwys. Cawsant eu hadnabod yn nes ymlaen gan eu baw. Ar y bore Sadwrn buom yn archwilio'r maglau gwyfynod a gweld rhai rhywogaethau hardd iawn gydag enwau diddorol gwych fel rhisgl y cen, y llwyd ffawydd a'r gwyfyn gwythien goch. Yna fe wnaethom ddechrau arolwg manwl o'r mynwentydd. Roedd yn llwyddiannus iawn a fedrem ni ddim fod wedi ymdopi heb help a gwybodaeth yr aelodau o grwpiau bywyd gwylt."



Lluniau gan Caring for God's Acre: Eglwys Sant Norton, Powys (uchaf); Eglwys San Mihangel, Llandre, Ceredigion

Dywedodd Andy Lester o A Rocha UK, "Mae Eglwysi'n Cyfrif Natur yn gyfle unigryw i'r rhai sy'n hoff o fynwentydd gymryd rhan yn y cyfrifiad natur mwyaf erioed. Gyda natur yn dal i ddirywio yn genedlaethol, bydd y cyfrifiad hwn yn rhoi data gwerthfawr ar yr hyn sy'n digwydd i fywyd gwylt. Yn ei dro bydd hyn yn ein helpu i gydweithio i gymryd camau wedi eu targedu er adfer natur."

Dywedodd Harriet Carty, Cyfarwyddwr Caring for God's Acre, "Rydym yn falch iawn eto i fod yn rhan o drefnu Eglwysi'n Cyfrif Natur. Drwy gynlluniau fel hwn rydym yn dysgu mwy am bwysigrwydd mynwentydd fel llochesau ar gyfer natur. Gyda mwy nag 20,000 ar draws Lloegr a Chymru ni fu'r

lleoedd arbennig hyn erioed yn hafanau mor hanfodol ar gyfer bywyd gwylt."

I gael mwy o wybodaeth ac i gofrestru i gymryd rhan ewch i: <https://www.caringforgodsacre.org.uk/get-involved/love-your-burial-ground-week/>

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r Parch Thomas Leonard Williams, Pwllglas, Rhuthun, a fu farw ar 25 Mawrth 2022. Byddwn yn cynnwys gair o goffâd yn *Cenn@d* yn fuan wedi ei gynhebrwng.



## Bywyd ar y stad yn Vauxhall

**'Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi' (Mathew 28:19)**

Dechreuodd [Hope Church, Vauxhall](#), ym mis Medi 2018, ac mae wedi ei lleoli yng nghanol stad Pleasure Gardens, Vauxhall, yn Llundain. Ers i mi ddod yn aelod yma dros dair blynedd yn ôl, mae Duw wedi bendithio'r gwaith yn helaeth ac mae yna tua 80 o bobl yn mynychu ar ddydd Sul, yn cynnwys môr o blant!

Dechreuodd y capel gan fod yna angen ysbrydol yn yr ardal, ac roedd Sam Gibb, y Gweinidog, wedi ei alw gan Dduw i rannu'r neges o obaith go iawn i'r ardal.

Ateb i weddi oedd symud i fy fflat ar y stad yr haf diwethaf! Mae bod yn yr ardal bob dydd yn fendith go iawn. Dwi'n cael cyfle i adnabod cymdogion – rhai sydd wedi byw ar y stad erioed. Mae hyn yn brofiad unigryw o Lundain i mi fel gweithiwr profesiynol ifanc. Gan ei bod yn ddinas mor fawr, hawdd ydi teimlo'n unig neu ar goll. Ond diolch i Dduw am deulu yng Nghrist. Ar ôl tyfu i fyny yng Nghefnmeiriadog, ger Llanelwy, mae wedi bod yn hawdd dod yn rhan o'r gymuned a'r capel, gan fod yna lawer o nodweddion a gwerthoedd tebyg – fel adnabod rhywun wrth gerdded i Tesco, neu fynd â phryd o fwyd i rywun sy'n sâl.

Felly, rwyf yn ddiolchgar i Dduw am y fagwraeth ges i mewn ardal arbennig yng Nghymru. Mae bywyd bob dydd yn teimlo fel bod pwrpas iddo fo, a dwi'n meddwl mai

dyna mae'r Beiblyn ei rannu am gerddediad Iesu ar y ddaear. O stori'r Nadolig hyd at ei groeshoeliad a'i atgyfodiad, roedd gan Dduw bwrpas tragwyddol dros anfon Iesu i fyw yng nghanol pechaduriaid.

Stori sydd yn fy annog i ydi loan 4, pan fu i Iesu siarad â'r wraig o Samaria. Roedd Iesu yn gwneud gweithredoedd oedd yn groes i'r diwylliant a'r traddodiad. Dyma esiampl o hyn: fuasai dyn Iddewig byth yn siarad gyda dynes ddibriad o Samaria, ond mi wnaeth Iesu. Roedd y disgyblion wedi rhyfeddu fod Iesu yn gwneud hyn, ond y neges ydi fod bywyd tragwyddol ar gyfer pawb, beth bynnag y farn bersonol. Mae Duw yn ein defnyddio ni ar gyfer gwneud ei waith ar y Ddaear – ni ydi golau a halen y ddaear (Mathew 5:14-15).

### 'Iesu, y neges o obaith yn Vauxhall'

Mae Hope Church yn gapel lle mae pobl o bob oed a chefnidir yn dod at ei gilydd i glywed y neges am Iesu sydd yn newid bywydau ac yn creu gobaith. Mae'r capel yn amlddiwylliantol; mae yna gymuned Sbaenaidd fawr sy'n ymuno â ni, ac mae yna system gyfieithu ar gael iddyn nhw. Mae gennym deuluoedd o Eritrea, Dwyrain Affrica, ar y stad, ac mae rhai bellach yn mynychu'r capel. Roeddent wedi gorfod dianc o'r wlad gwpl o flynyddoedd yn ôl gan ei fod yn beryg byw yno fel Cristion.

Mae llawer o bethau'n mynd ymlaen yn y capel yn wythnosol i gyrraedd allan a gwasanaethu'r ardal. Mae dyfalbarhad a'r

Ysbryd Glân wedi cynnal y gweithgareddau hyn, sydd wedi arwain at bobl yn ymuno â ni ar ddydd Sul gan ddod i berthynas efo Iesu Grist. Mae gennym noson bêl-droed i'r bechgyn ifanc, grŵp babis, grŵp ieuencid, banciau bwyd a chinio yn y ganolfan. Mae rhai aelodau o'r capel yn mynd o gwmpas y stad yn yr wythnos i guro ar ddrysau cymdogion, gan rannu'r neges am Iesu Grist.

Mae Hope Church yn rhan o rwydwaith o'r enw Co-Mission. Mae'n symudiad sy'n cynnwys eglwysi newydd sydd wedi eu plannu yn Llundain ers 2005. Mae'r capeli yn rhannu'r un weledigaeth o gyflwyno neges Iesu mewn ardaloedd anghenus.

Dwi'n eich annog i weddio am gyfleoedd a nerth yr Ysbryd Glân i garu eich cymydog a'u harwain nhw at rywun llawer gwell na ni ein hunain – Iesu Grist.

Buaswn yn ddiolchgar am eich gweddïau dros y canlynol:

- cyfleoedd i greu mwy o berthnasoedd ar y stad;
- amddiffynfa ysbrydol dros Sam Gibb a'r rhai sy'n gweithio yn y capel ac yn ei fynychu;
- bendith a gofal Duw dros gynlluniau a gweithgareddau'r capel;
- pobl sy'n byw yn yr ardal i ddod i adnabod Iesu Grist.

*Gwawr Davies*

*Mae Gwawr yn gweithio fel nyrs ar Ward Trawsblannu Mêr yr Esgyrn yn Ysbyty Great Ormond Street.*



Yr eglwys adeg ei sefydlu yn 2018 (uchod), ac yna dair blynedd yn ddiweddarach (isod)



Gwasanaeth carolau ar ganol y stad yn 2021



Gwawr gyda rhai o'r aelodau ifanc

## O'r Swyddfa

Bellach, a hynny yn dilyn dwy flynedd o gyfyngiadau, daeth yr amser i benderfynu ar ddyfodol ein patrwm gwaith o ran Swyddfa'r Gymanfa yng Nghaerdydd. Bu'r cyfnod yn un heriol i'r staff, nifer ohonynt wedi gweithio yno ers blynyddoedd lawer, gan deithio i mewn bob bore at eu gwaith. Mewn dim, fe'n gorfodwyd i ddarganfod ffordd o sicrhau'r gweithgarwch heb y lle, a rhaid imi ganmol pob un ohonynt am addasu mor gyflym. Gwelwyd colli cael cwmni, cael sgwrs anffurfiol yn y gegin, a chael holi hwn a'r llall, neu gael cefnogaeth dechnegol drws nesa. Ond, gwelwyd canlyniadau positif hefyd.

Un o'r pethau a sefydlwyd yn fuan oedd dau grŵp WhatsApp: y naill, sef Swyddfa Siwt, ar gyfer rhannu, holi a thrafod materion gwaith, a'r llall, sef Swyddfa Banter, er mwyn rhannu yn gymdeithasol, dal i fyny â newyddion ein gilydd a gwastraffu amser yn gyffredinol wrth dorri am baned neu ginio. Y teclyn arall oedd Zoom wrth gwrs, a rhaid imi gydnabod fod hwn wedi golygu bod cael sgwrs i drafod rhywbeth neu'i gilydd wedi dod yn haws bron na'r cyfnod yn y Swyddfa. Bellach, mater bach oedd trefnu cyfarfod staff, neu gyfarfod gydag adran

arbennig o'r staff. Roedd cysylltu â'r staff gweinyddol yn rhwydd iawn yr un modd. Gyda'r cyfyngiadau, cynyddwyd y defnydd o ebyst, gyda'r rhan fwyaf o eglwysi'n ymateb i gais am gyfeiriad ebost, rhywbeth yr oeddem wedi ceisio'i sylweddoli ers blynyddoedd. Bellach, mae'r system ffôn sydd gennym hefyd yn caniatáu nid yn unig ateb galwadau lle bynnag rydym yn gweithio, ond hefyd, medrwn drosglwyddo galwadau i aelodau eraill o'r tîm, yn ystod y galwad. Mae hwn yn rhywbeth gweddol newydd, ond gobeithiwn y bydd yn golygu bod ein haelodau a'n heglwysi yn ei gweld yn haws cysylltu o hyn ymlaen.

Ymhlith y pethau hynny sydd wedi fy synnu yw fod yr archwiliad ariannol blynyddol bellach yn cael ei wneud o bell yn gyfan gwbl. Yr oedd yna batrwm i fywyd y Swyddfa o gwmpas diwedd Chwefror a dechrau Mawrth bob blwyddyn: roedd yr archwilwyr yn cyrraedd a rhaid oedd wrth ystafell wedi ei neilltuo, tîm yn aros gyda ni am dros bythefnos, a darnau o bapur yn symud yn ôl ac ymlaen yn yr adran ariannol. Roedd pawb ar bigau'r drain braidd. Yn awr, gyda phob cofnod ariannol wedi ei ddigideiddio, mae'r ymweliadau,

lle bo angen, ar Zoom, a hynny'n cynnwys yr ymweliadau â Choleg Trefeca a Choleg y Bala. Nid yn unig mae hyn yn arbediad o ran cost, ond mae'n arbediad hefyd o ran amser (ac o ran straen), a rhaid cydnabod yn benodol hyblygrwydd y tîm ariannol o dan arweinyddiaeth Andy Britton.

Gyda llwyddiant gweithio o adre, a'r arbedion amlwg ddaeth yn sgil hynny, petai ddim ond am y ffaith fod amser staff yn cael ei arbed, yr ydym bellach wedi cytuno y bydd y patrwm hwnnw'n parhau, gyda threfn rota'n golygu y bydd yna rywrai yn y Swyddfa yn ddyddiol. Golygodd hyn fod gennym le yn sbâr, a da medru adrodd ein bod wedi trafod rhannu'r lle hwnnw gyda staff Cymorth Cristnogol. Os Duw a'i myn, fe fydd Mari McNeil a'r staff yn symud i rannu ein swyddfa o ddechrau Mehefin. Edrychwn ymlaen at hynny, ac at yr arwydd yma o elwa o brofiad y blynyddoedd diwethaf hyn, tra byddwn hefyd yn cael y fraint o weithio'n ymarferol gyda Chymorth Cristnogol o ddydd i ddydd, a hynny yn ystod blwyddyn ein hapêl ac i'r dyfodol.

*Meirion Morris  
Ysgrifennydd Cyffredinol  
Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

### DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2022

The Word of the Lord? – Making the Bible Make Sense

Darlith gan y Gwir Barchedig Jeffrey John,  
caplan cysylltiedig Eglwys St George's, Paris

Nos Fawrth, 3 Mai 2022

6.00 o'r gloch

yng Nghanolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

Canolfan Morlan / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

01970 612806 / [post@jamespantyfedwen.cymru](mailto:post@jamespantyfedwen.cymru)

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*  
Sul, 24 Ebrill, am 10yb  
Ailddarllenid o raglen Sul y Pasg

Dim rhaglen gyda'r nos

radio  
cymru

*Caniadaeth y Cysegr*  
Sul, 24 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp  
Mererid Hopwood sy'n edrych ar ddylanwad ein prifeirdd ar emynyddiaeth

Sul, 24 Ebrill, am 12:00yp  
Oedfa yng ngofal Beth Davies, Bro Aeron Mydr



**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**  
The Presbyterian Church of Wales

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn chwilio am  
Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweinidogaethau

Oriau – 35 awr yr wythnos  
Tymor – Mae'r swydd hon yn barhaol, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf  
Cyflog – Pwynt 65 ar raddfa EBC (£46,059), ynghyd â llety / lwfans tŷ a char/lwfans car

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae'n ofyniad galwedigaethol bod ymgeiswyr ar gyfer y swydd yn Gristion ac yn rhugl yn y Gymraeg. Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais cysylltwch â Mrs Eleri Melhuish [Eleri.Melhuish@ebcpcw.cymru](mailto:Eleri.Melhuish@ebcpcw.cymru) neu 029 2062 7465.

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â'r Parch Evan Morgan: [Evan.Morgan@ebcpcw.cymru](mailto:Evan.Morgan@ebcpcw.cymru)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 3 Mai, 9yb  
Cynhelir y cyfweiliadau ar 12 Mai yng Nghaerdydd

## Sul y Mamau yn Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Braf oedd gweld aelodau a ffrindiau wedi dod ynghyd i gapel Noddfa ar Sul y Mamau i oedfa arbennig wedi ei llunio gan Janet. Roedd tri theulu'n absennol oherwydd amgylchiadau amrywiol. Cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul, y bobl ifanc a'r rhieni. Mewn pennill a chân, diolchwyd am ein mamau, rhyfeddwyd at wrth y gwanwyn a dathlwyd buddugoliaeth y Pasg.

Croesawyd pawb yn gynnes gan Tudur ac ef hefyd gyflwynodd y weddi a'r emyn agoriadol. Cyhoeddwyd gweddill yr emynau gan Rhun a Cerys Angharad, ynghyd â gweddïau arbennig i gofio am deuluoedd Wcraïn gan Llinos, Helen a Cerys Roberts. Darllenwyd adnodau o'r Beibl gan Rob, a'r llefarwyr oedd Nia Wyn, Delyth a Gwenllian.

Mwynhawyd adroddiadau gan Esther, Lynwen a Cai ac unawd swynol gan Hari. Cafwyd sgwrs yn llawn hiwmor ond hefyd â neges bwysig i bawb gan Trystan Wyn a Tudur. Cyflwynwyd datganiad hyfryd o eiriau'n cyfeirio at fuddugoliaeth Iesu ar y groes ar yr alaw Troyte gan Llinos a Helen. Pleser fel arfer oedd gwrandao ar y rhai lleiaf yn canu, sef Llew, Tryfan a Nansi, gyda'r plant hynaf yn ymuno â nhw i ganu emyn wedi ei gyfansoddi gan Janet, a Trystan Wyn, Esther a Hari yn cyflwyno'r penillion.

Yn dilyn sgwrs hwyliog yn yr Ysgol Sul ynglŷn â phwy neu beth yr ydym yn ei gysylltu â chariad, cafwyd amrywiaeth o atebion, yn cynnwys Iesu Grist, ein teulu, anifeiliaid anwes, McDonald's, chwaraeon, a hyd yn oed Massey Ferguson!

Talodd ein gweinidog, y Parch Denis Morgan, deyrnged uchel i'r plant a'r bobl ifanc am eu cyfraniadau ardderchog ac am



goddi ein calonnau unwaith eto, i Janet am ei gwaith ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Diolchodd Janet yn bersonol i bawb am gymryd rhan, ac yn arbennig i Tudur, Esther a Llinos am gymryd lle Siân, Ifan ac Erin ar fyr rybudd oherwydd eu bod yn methu bod gyda ni oherwydd Covid. Roedd hefyd yn werthfawrogol o wasanaeth Delyth wrth yr organ ac am gyfeilio i'r plant, heb anghofio Alun a John Elfyn am baratoi'r llwyfan. Longyfarchodd nifer o'r plant a'r bobl ifanc ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd a dymunodd yn dda i nifer ohonynt sydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Ŵyl Genedlaethol. Hefyd, llongyfarchwyd pedwar o'r bobl ifanc ar eu llwyddiant mawr yn y maes chwaraeon ar lefel Cymru. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

Roedd pawb wedi cael bendith a mwynhad wrth gydaddoli â'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni mewn oedfa hyfryd.

## Newyddion

Mae'n ymddangos bod gweithgarwch capeli a mudiadau yn dechrau ailafael. Mae gweithgareddau'n cael eu trefnu gan yr eglwys ar feysydd Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Ac mae'n siŵr i weithgareddau gael eu cynnal dros y Pasg mewn capeli ar draws y wlad. Beth am anfon lluniau a chynnwys pwt byr i ddweud wrthym am y gweithgarwch neu'r oedfa arbennig a gynhaliwyd gennych?

Wrth i fwy o ddigwyddiadau gael eu cynnal a'r gweithgarwch gynyddu, cofiwch yr hoffai darllenwyr Cenn@d glywed am eich newyddion chithau hefyd. Cofiwch anfon eich cyfraniadau cryno atom.

Manylion cysylltu ar dud. 8

## Hysbyseb swydd – tiwtor, Coleg Bedyddwyr Caerdydd

Mae Ymddiriedolwyr Coleg Bedyddwyr Caerdydd yn awyddus i **benodi tiwtor** rhan-amser (0.5 FTE) a fydd yn rhannu yn y gwaith o gyflwyno rhaglen hyfforddiant gweinidogol y coleg. Gallai'r rôl hon fod yn addas ar gyfer rhannu swydd gyda'r ymgeiswyr cywir. Anogir y rhai a benodir i gyfrannu o'u meysydd arbenigedd ond hefyd i gymryd rhan yn rhaglen gyffredinol y gweithgareddau addysgu a bugeilio. Y gobaith yw y bydd y person neu'r personau a benodir yn gallu dechrau gweithio yn y coleg ar 1 Medi 2022.

Mae **Coleg Bedyddwyr Caerdydd** yn gymuned hyfforddi Gristnogol sydd wedi bod yn paratoi merched a dynion ar gyfer y weinidogaeth ym mhob maes o'i bywyd ers 1807. Cyfamodwn i 'gydgerdded' i ddatblygu aeddfedrwydd ysbrydol, sgiliau ymarferol, a gweledigaeth ddiwinyddol. Ceisiwn fod yn groesawgar, gan drigo ar y ffin rhwng yr eglwys a'r byd i archwilio'r ffydd a'r arferion Cristnogol mewn ffordd sy'n academaidd drwyadl, yn ddiwinyddol eang a dwfn, ac yn berthnasol i anghenion heddiw.

Mae manylion llawn am y swydd ar gael yma:  
<https://tinyurl.com/CBCTiwtor>



# Ar ba dîm?

Gan Cynan Llwyd, Pennaeth Tearfund Cymru

*Daw'r sgwrs hon o sesiwn 1af Uno x Cyfiawnder (Justice X Together), cyfres ryngweithiol gan We are Tearfund sy'n trafod pynciau'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol.*

Am ragor o wybodaeth, ewch i <https://wearetearfund.org/justicetogether/>

## Cefnogi'r cyfoethocaf neu'r tlotaf?

Darllen: Luc 4:16-30

Dwi'n aelod o'r Wal Goch. Ydych chi? Dwi'n siŵr fod llawer ohonoch chi. Falle fod rhai ohonoch chi'n gofyn, "Be yn y byd yw'r wal goch?" Wel, clwb cefnogwyr pêl-droed Cymru. Dwi'n cefnogi Cymru. Byth ers imi fynd i weld Cymru'n chwarae pêl-droed am y tro cyntaf yn 2002, a gwneud y daith hir ar y bws o Aberystwyth i Gaerdydd a 'nôl yng nghanol wythnos neu ar benwythnos, dwi wedi bod yn *hooked*. Wedi dilyn y tîm trwy'r dyddie anodd ... ac, yn fwy diweddar, y dyddie da.

Does dim byd gwell na sefyll yno cyn y gêm, yn gwisgo *bucket cap*, a chanu'r anthem a *capella* gyda gweddill y cefnogwyr. Gyda miloedd o bobl eraill sydd, fel fi, yn cefnogi Cymru. Dwi'n cefnogi'r un chwaraewr ar ddeg sy'n gwisgo'r crys coch.

Be mae hynny'n ei olygu? Dwi o'u plaid nhw. Dwi'n moyn y gore iddyn nhw, nid y gwaetha. Dwi'n moyn iddyn nhw lwyddo, nid methu. Dwi'n moyn iddyn nhw fod yn ffit ac yn iach, ddim wedi'u hanafu. Dwi'n moyn iddyn nhw fod yn gryf, ddim yn wan. Dwi'n moyn iddyn nhw fod y gore allen nhw fod, heb ddim byd yn eu rhwystro neu eu dal yn ôl. Dwi'n moyn iddyn nhw ennill. Achos pan mae chwaraewyr Cymru'n hapus ... dwi'n hapus. Pan maen nhw'n cael y rhyddid i lwyddo, dwi'n llawenhaus.

Nid pawb sy'n hoffi pêl-droed, dwi'n gwybod, ond mae pwy, neu beth, ry'n ni'n ei gefnogi yn bwysig. Mae'n cael effaith arnon ni. Mae pwy neu beth ry'n ni'n ei gefnogi yn cael dylanwad ar sut ry'n ni'n teimlo. Mae pwy neu beth ry'n ni'n ei gefnogi'n cael dylanwad ar ble mae ein harian ni'n mynd. Mae pwy neu beth ry'n ni'n ei gefnogi'n cael dylanwad ar ble mae ein hegri, ein gobeithion, ein gweithgareddau a'n meddyliau ni'n mynd.

Mae cefnogi tim pêl-droed, yn wlad neu'n glwb, yn un peth. Ond heddi, ry'n ni'n ystyried cwestiwn dyfnach. Ac yn y bôn y cwestiwn yw hwn ...



## Ydyn ni'n cefnogi'r cyfoethocaf neu ydyn ni'n cefnogi'r tlotaf?

Achos mae'r ateb yn bwysig iawn ac yn cael effaith enfawr ar rai o gymunedau tlotaf y byd. Ydyn ni'n cefnogi pobl dlotaf y byd ... neu ydyn ni'n cefnogi'r cyfoethocaf? A yw'r ffordd ry'n ni'n byw, yn meddwl ac yn gweddio yn cefnogi'r tlotaf neu'r cyfoethocaf?

Mae Tearfund, drwy ein partneriaid, yn gweithio gyda rhai o gymunedau tlotaf a mwya bregus y byd, cymunedau fel un Orbisa, sy'n ffermwraig yng ngogledd Ethiopia. Oherwydd newid hinsawdd, mae'n rhaid iddi gerdded ddeg awr y dydd, bob dydd, i nôl dŵr i'w theulu. Oherwydd sychder, mae hi wedi colli'r rhan fwyaf o'i hanifeiliaid.

O amgylch y byd mae yna filiynau o bobl fel Orbisa yn cael eu gwthio i dlodi. Ydyn ni'n cefnogi pobl fel Orbisa? Ydyn ni'n moyn y gorau i bobl fel Orbisa? Ydyn ni'n moyn gweld Orbisa yn llwyddo? Yn byw ei bywyd gorau? Neu ydyn ni ddim yn becsu?

Wel, mae Duw yn becsu. Mae Duw o blaid Orbisa. Mae Duw o blaid y tlotaf.

Nid cynllun Duw ar gyfer ei greadigaeth yw fod pobl yn byw mewn tlodi.

Mae Luc ym mhennod 4 yn adrodd yw hanes yma am Iesu:

Aeth Iesu yn ôl i Galilea yn llawn o nerth yr Ysbryd, ac aeth y sôn amdano ar led drwy'r ardal gyfan. <sup>15</sup> Roedd yn dysgu yn y synagogau, ac yn cael ei ganmol gan bawb. <sup>16</sup> A daeth i Nasareth, lle cafodd ei fagu, a mynd i'r synagog ar y Saboth

fel roedd yn arfer ei wneud. Safodd ar ei draed i ddarllen o'r ysgrifau sanctaidd. <sup>17</sup> Sgrôl proffwydoliaeth Eseaia gafodd ei roi iddo, a dyma fe'n ei hagar, a dod o hyd i'r darn sy'n dweud:

<sup>18</sup> "Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i, oherwydd mae wedi fy eneinio i i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd. Mae wedi fy anfon i gyhoeddi fod y rhai sy'n gaeth i gael rhyddid, a pobl sy'n ddall i gael eu golwg yn ôl, a'r rhai sy'n cael eu cam-drin i ddianc o afael y gormeswr, <sup>19</sup> a dweud hefyd fod y flwyddyn i'r Arglwydd ddangos ei ffafr wedi dod."

<sup>20</sup> Caeeodd y sgrôl a'i rhoi yn ôl i'r dyn oedd yn arwain yr oedfa yn y synagog, ac yna eisteddodd. Roedd pawb yn y synagog yn sylly arno.

Gallwch chi ddweud mai dyma arfbais Iesu Grist. Dyma'i faniffesto. Y'ch chi'n moyn gwybod pwy mae Iesu'n ei gefnogi? Darllenwch ei eiriau fan hyn. Dyma'i arfbais. Mae Duw yn Iesu Grist yn cyhoeddi newyddion da i bobl dlawd.

Mae Duw yn Iesu Grist o blaid y tlotaf. Yn cefnogi'r tlotaf ... nid y cyfoethocaf, y mwyaf pwerus, y mwyaf dylanwadol. Pa mor anhygoel yw hynny?

Arfbais, neu slogan, tîm pêl-droed Cymru yw "Gorau Chwarae Cydchwarae".

Dychmygwch fyd lle nad yw Orbisa a miliynau fel hi'n byw mewn tlodi.

Trwy gefnogi pobl mewn tlodi, trwy gydchwarae â nhw fel petai, mae modd sicrhau hynny. O wneud hynny, ry'n ni i gyd yn elwa, ry'n ni i gyd yn fodlon, ry'n ni i gyd yn cael y cyfle i chwarae ein rhan, i fyw ein bywydau yn eu holl gyflawnder. Ry'n ni i gyd yn byw'r bywyd mae Duw am i ni ei fyw.

Gorau Chwarae Cydchwarae: dychmygwch fyd lle mae pobl yn rhydd o dlodi. Dychmygwch fyd sydd o blaid y tlotaf. Dyna fwriad Duw ar gyfer ei greadigaeth. A'r wefr? Ry'n ni'n cael bod yn rhan o'r gwaith yna. Na, nid fel aelodau o ryw wal ddychmygol, ond o deyrnas a theulu real a byw sydd o blaid y tlotaf.

*Traddodwyd mewn seminar yng Ngŵyl Llanw '22 yn Aberystwyth wedi'r Pasg.*

## Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd

Wcráin: A yw cymunedau ffydd Cymru yn gwneud digon?

Dydd Mercher, 4 Mai 2022, 12.00-13.15

Trwy Microsoft Teams neu gynhadledd ffôn

Am fwy o wybodaeth neu i gadw lle, cysylltwch â Jim Stewart:

[jimstewartwales@gmail.com](mailto:jimstewartwales@gmail.com)



# O Gefn Gwlad



## Drysu

Y mae a wnelo'r Pasg â grym: grym yr Ymerodraeth Rufeinig, grym y genedl Iddewig, a grym yr un a oroesodd angau ym mha ffurf bynnag y dewiswch gredu yn y Crist atgyfodedig – ac rwy'n meddwl imi eisoes rywdro nodi na alla i gredu yn atgyfodiad y corff.

Alla i ddim dirnad y byddai'r Crist a gyfyngwyd yn ei gorff yn ystod ei fywyd ar y ddaear yn dychwelyd yn yr atgyfodiad i gaethiwed corfforol na allai fod ond mewn un lle ar yr un adeg. Ac mae yna ddigon o dystiolaeth hefyd i gredu yn y Crist ysbrydol a ymddangosodd i'r ddau ar eu ffordd i Emaus cyn diflannu o'u golwg, a nodi un enghraifft yn unig.


Beth bynnag am hynny, a beth bynnag gredwch chi'n bersonol, pob un sy'n darllen y golofn hon, y mae yna ymhlith llaweroedd gred bendant hefyd y daw Crist i'n plith drachefn, y bydd yna ailddyfodiad. Fel y dywed emyn leuan Glan Geirionydd:

A'r pryd y deui yr ail waith  
mewn mawredd, parch a bri.

Nid pawb o bell ffordd sy'n credu hyn, wrth gwrs; mae llaweroedd yn credu, fel yr emynydd anhysbys, mai: 'Unwaith am byth oedd ddigon'.

Un oedd, am a wn i, yn credu yn yr ail ddyfodiad, neu o leia a ddefnyddiodd y syniad i ddweud rhai pethau yn ei gerddi, oedd y bardd Gwyddelig W. B. Yeats. Mae ganddo gerdd 'The Second Coming', a sgrifennwyd ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, cerdd oedd yn ddarlun du iawn o'r sefyllfa oedd yn bodoli yn y byd oherwydd ac yn dilyn y gyflafan erchyll honno:

Mae Elfyn Pritchard yn codi nifer fawr o gwestiynau heriol, cwestiynau sy'n sicr o sbarduno trafodaeth ac ymateb. Beth am rannu eich ymateb gyda darllenwyr *Cenn@d*? Ydy o'n bwysig i ni mewn rhyw ffordd, er enghraifft, fod Iesu wedi atgyfodi'n gorfforol o'r bedd? Pam? Neu, beth a wnewch chi o eiriau Rowan Williams wrth iddo ymgodymu ag arwyddocâd y croeshoeliad a'r atgyfodiad?



Llun: pisit-heng-cilF55HaVWQ-unsplash

Things fall apart, the centre cannot hold,  
Mere anarchy is loosed upon the world.

Ai awgrymu y mae'r bardd, ac a yw'n ffaith, mai methiant oedd y dyfodiad cyntaf? Ystyriwch y trais a fu yn ein byd yn ystod y ddwy fil blynnydoedd diwethaf, ers i gariad, yn ôl yr emyn, 'berffaith gario'r dydd'. Ystyriwch y llanast y mae cymaint o'n byd a'i boblogaeth wedi bod ynddo ac yn dal i fod ynddo. Ble mae llwyddiant y dyfodiad cyntaf?

A gofynnir y cwestiwn hwn yn arbennig y dyddiau yma yn dilyn trais gorffwyll Putin ar Wcráin. Ai y fo yw'r ail ddyfodiad, tybed, a ddisgrifiwyd yn 1918 gan Yeats ar ddiwedd ei gerdd:

And what rough beast, its hour come round at last  
Slouches towards Bethlehem to be born?

Ai symbol o rai megis Putin (gyda 'a gaze blank and pitiless as the sun'), ac unbenaethiaid pwdr ein byd yw'r anifail gwyllt sy'n gwargrymu ei ffordd tua Bethlehem ein gobeithion? Ai rhyfel a dinistr yw'r gwaddol a gyflwynir ymlaen i genedlaethau'r dyfodol? A fydd yr ail ddyfodiad yn gymaint methiant â'r cyntaf?

Mater o ddewis neu o farn, mae'n debyg, yw dweud fod y dyfodiad cyntaf fethiant yn hytrach na chydabod mai ein methiant ni, y rhai sy'n honni cred i iawn ledaenu'r neges, sy ar fai.

Ym mha beth mewn difri y credwn?

Ai mewn achubiaeth bersonol i sicrhau i ni fywyd tragwyddol? Onid dyn, yn hytrach na Duw, hawliodd fywyd Crist?

Wyddoch chi be'? Rhaid imi gyfadde mai'r dyfodol yn y byd hwn i fy mhlant, fy wyrion a'm gorwyrion yw fy nghonsyrn i a minnau'n hen, nid beth fydd yn digwydd i mi tu draw i angau.

A beth allwn ni ei wneud i sicrhau i genedlaethau'r dyfodol fyd o heddwch a chyfiawnder? Onid yw'n bryd inni ganolbwyntio ar un neges yn unig – cariad? Yr hyn ddangosodd Crist yn eigenhadaeth ar y ddaear. Nid sicrwydd bywyd tragwyddol, nid maddeuant pechodau yn dilyn rhyw bechod gwreiddiol seiliedig ar fytholeg Gardd Eden, nid parhad ein henwadau annwyl. Mae 95 y cant o Gymry Cymraeg wedi troi cefn ar addoliad, medden nhw. Pam, tybed? Ai ein methiant ni i harneisio grym cariad a'i yrru i bedwar ban byd ac i galonau pawb? Methu cylchdroi gwir rym y dyfodiad cyntaf?

Mi fyddwch yn deall nad yw'r atebion gen i, mai barn neu fympwy sy gen i. Mor hawdd yn aml yw nodi'r problemau a mynegi'r amheuan. Ac un ffaith sy'n ychwanegu at y problemau hyn, i mi yn sicr, yw fod Putin, yn ôl a ddeallaf, ac fel 78 y cant o boblogaeth Rwsia, yn Gristion ac yn aelod o'r Eglwys Uniongred yno. A'n gwaredo!

*Elfyn Pritchard*

## Yr Atgyfodiad

Mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, y mae pob un o awduron [y Testament Newydd] yn ymdrechu i ddod i delerau â diwedd difaol bywyd a marwolaeth Iesu: terfynoldeb ydyw sydd, ar yr un llaw, yn golygu na all yr agwedd at y gyfraith a'r bobl etholedig fyth eto â bod yr un, ac ar y llaw arall gadewir y crediniwr â'r holl broblemau o fyw mewn byd sydd yn amlwg heb ei drawsnewid. Er hyn, ni ellir osgoi'r terfynoldeb hwn. Y mae'r crediniwr yn byw ym mywyd Iesu, ac allan ohono, yr hwn a groeshoeliwyd ac a *gyfodwyd*. Cafodd yr Iesu a fu farw ei gyfiawnhau gan ei Dad; yr atgyfodiad yw'r hyn sy'n cyfeirio at yr un a groeshoeliwyd fel datguddiad terfynol a thyngedfennol Duw (Rhufeiniaid 1:4).

Rowan Williams, *The Wound of Knowledge*, tud 4

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Hynod fawr yw yn awr ...

### Gweddi

Arglwydd Iôr, addolwn di. Diolchwn nad yw dy feddyliau di, dy wybodaeth, dy allu, dy amcanion daionus, dy amynedd, a'th drugaredd, i'w cymharu â'n meddyliau ni. Yn dy harddwch a'th ysblander addolwn di, yr hwn wyt, 'Sanctaid, sanctaid a sanctaid'. Arglwydd, ymostyngwn i'th addoli. Amen.

### Darlenn Salm 150

neu gellir canu cyfieithiad y *Salmau Cân Newydd* ar yr emyn-dôn 'Darwall' <https://www2.bible.com/bible/1364/PSA.150.scn>

### Cyflwyniad

Yn 1691 cyhoeddodd John Toland, *Christianity not Mysterious: Or, A Treatise Showing That there is nothing in the Gospel Contrary to Reason nor Above it, And that no Christian Doctrine can be properly called A Mystery*.

Nid oes ddirgelwch mewn Cristnogaeth, yn ôl Toland, dim ond yr hyn y medr rheswm dynol ymgyrraedd ato a'i gloriannu.

Ond os caiff yr hyn sy'n oruwchnaturiol am y ffydd ei hepgor fe beidia, ar unwaith, mewn unrhyw ystyr Feiblaidd neu hanesyddol â bod yn 'Gristnogaeth' o gwbl. Heb Iesu a'i aberth, ei atgyfodiad a'i ogoniant, fe oera'n haddoliad; collir nerth a gwywa ein tystiolaeth i'r byd.

Fel y cawn weld, mae'r bedd gwag, yr 'Atgyfodiad', yn gwbl ganolog i hanfod y ffydd a draddodwyd i'r saint.

### Darlenn Actau 5:27-32 - Cyhoeddiad

Trwy ddewrder, dygnwch ac argyhoeddiad, mynnodd yr Apostolion dystio i'r Arglwydd Iesu Grist. Siomwyd gobeithion yr awdurdodau crefyddol os credasant erioed y byddai'r cynnwrf a ddilynai Iesu wedi marw gydag ef adeg ei groeshoeliad. Roedd achos gan y Sanhedrin i fod yn bryderus! Er iddynt eu bygwth cyn hyn, roedd yr Apostolion 'wedi llenwi Jerwsalem â'ch dysgeidiaeth'. Rhaid oedd adfeddiannu'r naratif cyhoeddus a rhwystro'r pregethu oedd yn 'rhoi'r bai arnom ni am dywallt gwaed y dyn hwn'.

Fe allai'r Apostolion fod wedi bodloni i'w cais pe byddent am osgoi erlid pellach. Ond roedd yr hyn yr oeddynt am dystio iddo yn galw am ufudd-dod i rywun mwy nag awdurdod crefyddol neu wleidyddol. Roedd yn 'rhaid' tystio i'r hyn a wnaeth Duw a bod 'Duw ein hynafiaid ni wedi cyfodi Iesu, yr hwn yr oeddech chwi

wedi ei lofruddio trwy ei grogi ar bren. Hwn a ddyrchafodd Duw at ei law dde yn Bentywysog a Gwardwr'.

Nid seren wib o 'seléb' â'i boblogrwydd yn aros dros dro yn unig mo'r pentywysog buddugoliaethus hwn! Roedd Iesu, yr hwn a ddyrchafwyd gan y Tad ei hun, yn goncwerwr ar angau gawr. Roedd yn waredwr, a'r gallu ganddo 'i roi edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau'. Yn wir, roedd yr 'Ysbryd Glân a roddodd Duw' yn cyd-dystio i'w ogoniant ac yn cadarnhau realiti'r pethau hyn 'i'r rhai sy'n ufuddhau iddo'.

### Emyn 83 'F'enaid, mola'

### Darlenniad Ioan 20:24-31 - Cyfarfyddiad

Oni fyddai'n rhwydd pe medrem roi llinell drwy'r rhannau hynny o'r Testament Newydd yr ydym yn eu ffeindio'n dramgwydd i'n meddyliau 'materol' ni? Ond ni chawn ganiatâd gan y Testament Newydd i ddweud mai 'camddealltwriaeth' gan bobl hygoelus oedd yn byw mewn oes gyn-wyddonol oedd yr adroddiadau am 'atgyfodiad' Iesu. Nid digon yw esbonio'r bedd gwag fel profiadau rhai oedd yn 'dymuno' gweld Iesu'n fyw, na chwaith bod Iesu'n 'fyw' rywsut drwy ei ddylanwad neu ei ddisgeidiaeth foesol.

Wnaiff hynny ddim o'r tro o gwbl fel dehongliad.

Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl bod unrhyw un o'i ddisgyblion (er iddynt gael eu rhybuddio gan Iesu) wedi disgwyl gweld bedd gwag a Christ wedi ei gyfodi. Ni fynnai Thomas chwaith gael ei dwyllo. Wedi'r cyfan, dydy pobl farw ddim fel rheol yn atgyfodi!

Wythnos wedi'r Pasg cyfarfu Iesu â Thomas, ac roedd yn 'gyfarfod hyfryd iawn', go iawn. Safodd Iesu ymhlith ei gyfeillion a chyhoeddi 'tangnefedd' i'w calonnau briwedig. Ni allent amgyffred bod Iesu, a fu farw, yn awr yn fyw, ac yn sefyll yn eu mysg. Yn y cyfarfyddiad grasol a thyner adnabu Thomas mai 'fy Arglwydd a'm Duw' oedd yr Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd, a atgyfododd ac a safai o'i flaen.

Hyd heddiw caiff pob un sy'n 'credu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw ... fywyd yn ei enw ef'.

### Darlenn Datguddiad 1:4-8 - Cyntaf-anedig

Byddai'n rhwydd i ni anghofio bod Ioan, y disgybl yr oedd Iesu'n ei garu, wedi sefyll

wrth ymyly groes. Ef ei hun, 'y disgybl arall', oedd y cyntaf o'r Apostolion i gyrraedd i bedd gwag, er i Pedr redeg nerth ei draed. Pregethau Pedr a gofnodir yn yr Actau, ond roedd Ioan ymhlith yr Apostolion ar ddydd y Pentecost ac yr oedd wedi rhannu hefyd yn nioddefaint yr erlid cynharaf!

Yn awr, ar Ynys Patmos, ar gyfrif ei dystiolaeth i'r Arglwydd, daeth y weledigaeth ryfeddol a welir yn Llyfr y Datguddiad.

Cawn ein cyfeirio gan Ioan i addoli'r Duw hwnnw sy'n dri yn un. Cyfeiria Ioan ni at Iesu Grist, at 'Dduw ei dad', at yr 'Ysbryd' a'i weithredoedd seithplyg (cyfeiriad, mae'n debyg, yn ôl at y disgrifiad o waith yr Ysbryd sy'n gorffwys ar y gwas dewisedig yn Eseaia 11:2).

Fe'n gwahoddir i syllu ar Iesu Grist a'i adnabod fel 'y tyst ffyddlon' i fawredd, dirgelwch, cymeriad a bwriadau Duw. Heb sbin, na thwyll, yn ddi-dderbyn-wyneb, saif Iesu, mab Duw, fel y 'tyst ffyddlon', geirwir a dibynadwy. Ef yw'r 'cyntaf-anedig o blith y meirw'. Y cyntaf-anedig brenhinol ydyw, a chanddo'r statws i lywodraethu. Ef yw'r cyntaf-anedig yng nghreadigaeth newydd a rhyfeddol y Duwdod. Ef yw'r cyntaf-anedig o blith llawer a ddeuai ar ei ôl, ac ef yw'r patrwm ar gyfer ein bywhad ninnau sydd yng Nghrist. Nid osgoi angau a wnaeth Iesu ond ei goncro, ac nid all unrhyw feidrol yn osgoi glyn cysgod angau. Ond yng Nghrist awn drwy'r glyn yn fwy na concwerwr. Cawsom, yng Nghrist, ein golchi, a chawn fod yn urdd offeiriadol a brenhinol (Exodus 19:6, 1 Pedr 2:9-11). Y Crist byw hwn yw barnwr y byd a'r hwn sy'n peri i bawb, yn fonedd a gwrêng, gywilyddio o'i flaen. Ef ydyw'r un sy'n dod i feddiannu ei deyrnas yn derfynol. Y Crist byw, atgyfodedig, buddugoliaethus hwn yw'r un a'n carodd.

A'r Duw hwn yn Undod rhyfeddol ei Fod yw'r Alfa a'r Omega, dechrau a diwedd pob un dim. Ef yn unig yw'r hollalluog, yr hwn oedd ac sydd, ac sydd eto i ddod.

### Gweddi

Arglwydd Dduw, o syllu arnat, ni allwn lai na rhyfeddu at dy fawredd gan wybod nad oes ymhlith holl ryfeddodau'r nef neb i gystadlu na'i gymharu â thi. Yr ydym am edifarhau am bob gwrthryfel gan ddyheu am nerth i'th addoli a'th wasanaethu'n deilwng.

### Emyn 323 'Mawr oedd Crist'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)